# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Oliver James | **Adran Etholiadol:** | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod yn ymwneud â llawer o brosiectau unigol ar ran preswylwyr yn y ward. Cynhelir cymorthfeydd gennyf fi, a chan fy nghyd-gynghorwyr ward, ddwywaith y mis yn Fforest-fach ac yn Waunarlwydd.
Gall preswylwyr gysylltu â fi unrhyw bryd drwy ffonio neu e-bostio ac rwyf wedi helpu gydag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys baw ci, sbwriel, palmentydd ansefydlog, gwrychoedd sydd wedi gordyfu, ceisiadau cynllunio a llawer mwy.
Rwyf wedi gweithio'n agos gyda phreswylwyr a'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bendigedig ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cerbydau wedi'u gadael, goryrru ac ymddygiad anghyfreithlon.
Rwyf hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau hyfforddiant a gyflwynir gan y cyngor megis diogelu plant ac oedolion, GDPR a mwy - ac mae'r rhain yn fy helpu i gyflawni fy rôl yn y cyngor.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Rwy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu Coleg Gŵyr ac mae nifer o fyfyrwyr sy'n byw yn fy ward yn mynychu'r coleg hwn. Mae'n braf gweld cyflawniadau gwych y myfyrwyr a'r coleg.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwy'n cymryd rhan sylweddol yn yr ymgyrch gan athrawon cyflenwi i atal asiantaethau preifat rhag ecsbloetio'r staff hyn. Rwyf wedi gwneud gwaith drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â hyn ac rwyf wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda gwleidyddion a gweision sifil pwysig parthed yr angen i roi terfyn ar arfer cwmnïau preifat o elwa ar ein hysgolion - yn enwedig ar adeg pan fo'r cyllidebau mor gyfyngedig.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi gweithio ar nifer o fentrau yn yr ardal, gan geisio gwella cyfleusterau a safonau byw cyffredinol yn ein ward. Rwyf wedi bod yn fodlon cwrdd â phobl neu siarad dros y ffôn ar unrhyw adeg, a byddaf yn hapus i drosglwyddo problemau i adran berthnasol y cyngor. Rhoddwyd arian gennyf fi a chan fy nghydweithwyr ward, gan ddefnyddio'n cyllideb gymunedol, i Dŷ Dewi Sant, ROOTS, Clwb Pensiynwyr Fforest-fach a grwpiau eraill, a chynorthwyon ni drwy roi arian i Barc Ravenhill a Thŷ Cymunedol Tŷ Fforest.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Basic Salary - Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29/10/2018 |